SEFYDLIAD DYSGU A GWAITH
LEARNING AND WORK INSTITUTE

# Addysg oedolion yng Nghymru

## Arolwg Cyfranogiad Oedolion mewn Dysgu 2025

Oriane Nermond, Bradley Phipps ac Emily Jones

Mawrth 2026

**Sefydliad Dysgu a Gwaith**
Noddwr: EHB Y Dywysoges Frenhinol | Prif Weithredwr: Stephen Evans
Cwmni cyfyngedig drwy warant, a gofrestrwyd yn Lloegr a Chymru
Rhif cofrestru cwmni 2603322 Rhif cofrestru elusen. 1002775
Swyddfa gofrestredig: Unit 1.23, St Martin's House, 7 Peacock Lane, Caerlŷr/Leicester, LE1 5PZ

INVESTORS IN PEOPLE®
We invest in people Gold

We are a Living Wage Employer

# Am y Sefydliad Dysgu a Gwaith

Mae'r Sefydliad Dysgu a Gwaith yn gorff polisi ac ymchwil annibynnol sydd â'i ffocws ar ddysgu gydol oes a gwaith gwell. Ein gweledigaeth yw cymdeithas deg a llewyrchus lle mae dysgu a gwaith yn galluogi pawb i gyflawni eu potensial. Rydym yn ymchwilio i'r hyn sy'n gweithio, dylanwadu ar bolisi a datblygu syniadau newydd i wella ymarfer.

**Cael yr wybodaeth ddiweddaraf. Cymryd rhan. Ymgysylltu. Cofrestrwch i ddod yn gefnogwr y Sefydliad Dysgu a Gwaith:**
**https://sefydliaddysguagwaith.cymru/cy/rhwydwaith-cefnogwyr/**

Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith Cenedlaethol

Uned 1.23, St Martins House, 7 Peacock Lane, Caerlŷr/Leicester, LE1 5PZ UK

Rhif cofrestru cwmni 2603322 | Rhif cofrestru elusen. 1002775

www.learningandwork.org.uk @LearnWorkUK @LearnWorkCymru (Wales)

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu, copïo na thrawsyrru y cyhoeddiad hwn heb ganiatâd ysgrifenedig y cyhoeddwr, heblaw yn unol â darpariaethau Deddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988, neu dan delerau unrhyw drwydded yn caniatáu copïo cyfyngedig a gyhoeddir gan yr Asiantaeth Trwyddedu Hawlfraint.

# Cynnwys


Cynnwys ... 4
Crynodeb gweithredol ... 5
Cyflwyniad ... 7
Cyfranogiad oedolion mewn dysgu yng Nghymru ... 8
    Mwy o oedolion yn cymryd rhan mewn dysgu yng Nghymru nag yn y DU ... 8
    Mae anghydraddoldebau cymdeithasol-ddemograffig sylweddol ... 10
    Mae anghydraddoldebau mewn risg o ddod i hunanbarhau ... 16
Sut mae oedolion yn dysgu ... 18
    Dywedodd un ym mhob tri o ddysgwyr eu bod yn dysgu yn annibynnol ar ben eu hunain ... 18
    Oedolion sydd fwyaf tebygol o gymryd rhan mewn dysgu cysylltiedig â gwaith ... 20
    Dywedodd ychydig dan ddau draean dysgwyr fod o leiaf peth o'u dysgu wedi bod ar-lein ... 22
Cymhellion i ddysgu ... 23
    Gwaith a gyrfaoedd yw prif gymhelliant dysgwyr ... 23
    Fodd bynnag, mae cymhellion eang dysgwyr yn fwy amrywiol ... 23
Manteision dysgu ... 25
    Mae gan dysgu lawer o fanteision ... 25
    Mae manteision dysgu yn ymwneud â chymhellion y dysgwr ... 27
Rhwystrau i ddysgu ... 29
    Oedran, cost ac awydd yn atal pobl rhag cymryd rhan mewn dysgu ... 29
    Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn profi heriau wrth ddysgu ... 30
Casgliad ... 32
Atodiad: Dull yr arolwg ... 33

# Crynodeb gweithredol

**Yn 2025 dywedodd bron hanner (47%) oedolion yng Nghymru eu bod wedi cymryd rhan mewn dysgu o ryw fath – ffurfiol, anffurfiol neu heb fod yn ffurfiol – yn y tair blynedd ddiwethaf**.[1] Fodd bynnag, dywedodd un mewn pump (22%) nad oeddent wedi cymryd rhan mewn dysgu ers gadael addysg lawn-amser.

**Dywedodd mwy o oedolion yng Nghymru nag yn y Deyrnas Unedig gyfan eu bod yn dysgu (47% o gymharu â 42%). Fodd bynnag, ymddengys fod anghydraddoldeb yn ôl graddiad cymdeithasol a statws gwaith yn uwch yng Nghymru.** Dywedodd ychydig dros hanner (55%) pobl yn y graddiad cymdeithasol uchaf yng Nghymru eu bod wedi cymryd rhan mewn dysgu yn y tair blynedd ddiwethaf, o gymharu â 36% yn y graddiad isaf. Mae hyn yn cyfateb â gwahaniaeth o 19 pwynt canran, o gymharu â gwahaniaeth o 10 pwynt canran yn y DU. Dywed tri ym mhob pump (59%) o gyflogeion llawn-amser eu bod wedi cymryd rhan mewn dysgu yn y tair blynedd ddiwethaf, o gymharu â 28% o bobl economaidd anweithgar. Mae hyn yn wahaniaeth o 31 pwynt canran, sy'n fwy na'r bwlch o 26 pwynt canran yn y DU.

**Yn yr un modd â'r DU, mae cyfranogiad mewn dysgu yn gostwng gydag oedran.** Yng Nghymru mae pobl 50-74 oed hanner mor debyg ag oedolion 25-49 oed o fod wedi cymryd rhan mewn dysgu yn y tair blynedd ddiwethaf (30% o gymharu â 59%).

**Po hiraf mae rhywun yn aros mewn addysg lawn-amser, y mwyaf tebygol ydynt o ddysgu yn nes ymlaen mewn bywyd.** Mae pobl a adawodd addysg lawn-amser yn 16 oed neu iau (34%) yn llai tebygol o ddweud eu bod wedi cymryd rhan mewn dysgu na phobl a adawodd addysg lawn-amser yn 21 oed neu fwy (53%).

**Mae oedolion yn fwyaf tebygol o weithio mewn lleoliad cysylltiedig â gwaith, a ddilynir gan ddysgu yn annibynnol.** Yng Nghymru, dywed ychydig dros ddau mewn pump (43%) o ddysgwyr eu bod wedi cymryd rhan mewn dysgu mewn lleoliad cysylltiedig â gwaith, tebyg i yn y gwaith, mewn prentisiaeth neu ar gwrs hyfforddi a drefnwyd gan eu cyflogwyr. Ymhellach, dywedodd 39% o ddysgwyr eu bod wedi dysgu yn annibynnol – ar ben eu hunain neu gyda phobl eraill. Gallai hyn gael ei gefnogi gan ddysgu ar-lein, gydag ychydig dan ddau draean (63%) o'r dysgwyr yn dweud fod o leiaf beth o'u dysgu ar-lein.

[1] Mae dysgu ffurfiol yn cyfeirio at addysg wedi ei strwythuro, a seiliedir ar y cwricwlwm a gyflwynir drwy sefydliadau cydnabyddedig tebyg i ysgolion, colegau a phrifysgolion, fel arfer yn arwain at gymwysterau gydag achrediad. Mae dysgu heb fod yn ffurfiol yn disgrifio dysgu wedi ei drefnu a phwrpasol a gynhelir tu allan i'r system addysg ffurfiol, yn aml wedi'i gynllunio ar gyfer grwpiau neu amcanion penodol a heb fod bob amser yn arwain at achrediad ffurfiol. Mae dysgu anffurfiol yn cyfeirio at ddysgu heb strwythur, yn aml hunan-gyfeiriedig sy'n digwydd drwy weithgareddau bob dydd, rhyngweithio a phrofiadau mewn lleoliadau tebyg i waith, cartref a'r gymuned. Caiff y categorïau hyn eu defnyddio yn eang, ond ni chânt bob amser eu diffinio'n glir, a gallant orgyffwrdd yn ymarferol.

**Mae oedolion yn fwy tebygol o gael eu cymell i fynd ati i ddysgu am resymau yn gysylltiedig â gwaith neu yrfa nag ar gyfer hamdden neu ddiddordebau personol (58% o gymharu â 41%).** Fodd bynnag, mae dysgwyr hefyd yn nodi ystod eang o gymhellion am fynd ati i ddysgu, yn cynnwys datblygu fel person (44%), eu helpu i wneud eu swydd neu wella eu sgiliau swydd (32%) ac i ennill cymhwyster cydnabyddedig (30%).

**Mae dysgwyr yn profi amrywiaeth o fanteision o ddysgu yn ogystal â heriau.** Dywedwyd mae gwella hunanhyder (37%), cyflawni neu symud yn nes at nodau datblygu personol (34%) a mwy o fwynhad o ddysgu (33%) yw'r buddion a nodwyd amlaf ymysg dysgwyr yng Nghymru. Fodd bynnag, dywedodd 71% o ddysgwyr iddynt brofi o leiaf un her tra'n dysgu. Soniodd tri mewn deg (30%) am bwysau amser, a ddilynwyd gan ddiffyg hyder (25%) a chost (20%).

**Mae oedolion a ddywedodd nad ydynt wedi cymryd rhan mewn dysgu yn y tair blynedd ddiwethaf yn fwyaf cyffredin yn dweud bod teimlo'n rhy hen yn rhwystr (34%).** Dilynir hyn gan gost a fforddiadwyedd (31%) a pheidio bod eisiau gwneud hynny (27%). Gall cynyddu gwerth tybiedig dysgu gan oedolion yn ogystal â dileu rhwystrau annog mwy o oedolion i fynd ati i ddysgu.

# Cyflwyniad

Mae addysg oedolion yn hanfodol ar gyfer pobl, busnesau a chymdeithas. Gall helpu pobl i ddod o hyd i waith, cefnogi iechyd a llesiant, hyrwyddo integreiddio cymdeithasol a llawer mwy o fanteision eraill. Bydd dysgu gydol oes yn tyfu mewn pwysigrwydd wrth i'r boblogaeth heneiddio, pobl â bywydau gwaith hirach a'n heconomi a chymdeithas yn newid.

Mae'r Sefydliad Dysgu a Gwaith wedi cyhoeddi'r Arolwg Cyfranogiad Oedolion mewn Dysgu am bron 30 mlynedd. Dyma'r arolwg o'i fath a gynhaliwyd am y cyfnod hiraf, a'r adroddiad diffiniol ar bwy sy'n dysgu, pam a sut.

Bob blwyddyn cynhelir arolwg ar sampl cynrychioladol o tua 5,000 o bobl 17 oed a throsodd ar draws y Deyrnas Unedig i lunio'r canfyddiadau. Mae'r arolwg yn defnyddio diffiniad pwrpasol eang o ddysgu, gan ymestyn tu hwnt i addysg a chyfleoedd hyfforddiant a gyllidir gan y llywodraeth a chyflogwyr ar gyfer oedolion;

> "Gall dysgu olygu ymarfer, astudio neu ddarllen am rywbeth. Gall hefyd olygu cael eich addysgu, cyfarwyddo neu hyfforddi. Mae hyn er mwyn i chi allu datblygu sgiliau, gwybodaeth, gallu neu ddealltwriaeth o rywbeth. Gall dysgu hefyd gael ei alw yn addysg neu hyfforddiant. Gallwch ei wneud yn gyson (bob dydd neu fis) neu gallwch ei wneud am gyfnod byr o amser. Gall fod yn amser llawn neu ran-amser, gartref, yn y gwaith, neu mewn lle arall fel coleg. Nid oes raid i ddysgu arwain at gymhwyster. Mae gennym ddiddordeb mewn unrhyw ddysgu yr ydych wedi ei wneud, boed wedi ei orffen neu beidio.'

Yn 2025 cafodd sampl Cymru ei hybu i arolygu 800 o oedolion, gan alluogi dadansoddiad ychwanegol a chymharu gyda'r DU gyfan.[2] Cafodd y sampl ei bwysoli i roi set ddata sy'n cynrychioli poblogaeth oedolion Cymru. Mae'r adroddiad yn cyflwyno'r canfyddiadau wedi eu dadansoddi yn ôl nodweddion allweddol lle'n bosibl, yn cynnwys oedran, rhanbarth, graddiad cymdeithasol, statws gwaith ac ethnigrwydd.

Cynhaliwyd y gwaith maes ym Mehefin a 2025 gan Kantar, cwmni ymchwil marchnad, drwy eu harolwg omnibws y DU ar-lein. Mae mwy o wybodaeth am y fethodoleg ar gael yn yr Atodiad. I ganfod mwy am gyfres yr arolwg ac ymchwilio data tueddiad drwy ein siartiau rhyngweithiol ewch i www.learningandwork.org.uk

---

[2] Mae'r sampl wedi ei hybu yn cynnwys 251 o oedolion yng Nghymru a gynhwyswyd yn yr arolwg ar draws y DU, ynghyd â 600 achos ychwanegol yng Nghymru. Defnyddiwyd sampl wedi pwysoli y DU wrth gymharu Cymru gyda'r DU gyfan ond yn eithrio'r hwb yng Nghymru. Mae hyn yn sicrhau nad chaiff sampl y DU gyfan ei wyro gan or-gynrychiolaeth o ymatebwyr o Gymru. Mae angen gofal wrth drin y cymariaethau hyn oherwydd y gwahaniaeth rhwng maint y samplau.

# Cyfranogiad oedolion mewn dysgu yng Nghymru


## Mwy o oedolion yn cymryd rhan mewn dysgu yng Nghymru nag yn y DU

Yng Nghymru, dywedodd 47% o oedolion 17 oed a throsodd eu bod yn dysgu ar hyn o bryd (22%) neu eu bod wedi gwneud hynny yn y tair blynedd ddiwethaf (25%) (Ffigur 1), Dywedodd 27% eu bod wedi dysgu fwy na thair blynedd yn ôl a 21% arall nad ydynt wedi dysgu ers gadael addysg lawn-amser.

Mae'r canran o oedolion sy'n dysgu ar hyn o bryd neu a wnaeth hynny yn ddiweddar yn sylweddol uwch yn ystadegol na chyfartaledd y DU (42%). Mae canran yr oedolion a ddywedodd nad ydynt wedi dysgu ers gadael addysg lawn-amser yn sylweddol is yng Nghymru nag yn y DU (21% o gymharu â 30%).

**Ffigur 1: Mwy o oedolion yng Nghymru yn dweud eu bod yn cymryd rhan mewn dysgu nag yn y DU.**

Cyfranogiad oedolion mewn dysgu yng Nghymru ac yn y DU, 2025




Sylfaen: Ymatebwyr Cymru. Sylfaen wedi pwysoli = 841. Sylfaen heb bwysoli = 851. Ymatebwyr y DU gyfan. Sylfaen wedi pwysoli = 5,186. Sylfaen heb bwysoli = 1,366.

Dengys y data y gall lefel cyfranogiad mewn dysgu yng Nghymru fod wedi cynyddu ers 2023, pan ddywedodd 41% o oedolion eu bod wedi dysgu yn y tair blynedd ddiwethaf (Ffigur 2).[3] Gall gwahanol esboniadau a ffactorau fod wedi cyfrannu at y newid hwn.

Yn gyntaf, gallai gael ei esbonio'n rhannol gan y cynnydd bach yn y cyflogeion a dderbyniodd hyfforddiant yn y gwaith yng Nghymru, gyda 36,300 yn fwy o gyflogeion wedi derbyn hyfforddiant yn y 12 mis diwethaf rhwng 2023 a 2024. Fodd bynnag, nid

---


[3] Cafodd y sampl yng Nghymru ei hybu ddiwethaf yn 2023. Fodd bynnag, dylid bod yn ofalus gyda'r gymhariaeth hon. Roedd maint sampl 2023 Cymru yn hanner sampl 2025, gyda sylfaen wedi pwysoli o 422 yn 2023 o gymharu â 851 yn 2025. https://www.learningandwork.wales/news-and-policy/participation-in-learning-in-wales/

yw hyn yn dangos buddsoddiad uwch mewn dysgu gan gyflogwyr, gan fod nifer cyfartalog dyddiau hyfforddiant fesul hyfforddai yn is yn 2022 nag yn 2024. Mae felly yn fwy tebygol y cafodd y cynnydd hwn ei yrru yn fwy gan gyflogeion yn derbyn hyfforddiant byrrach a mathau penodol o hyfforddiant, tebyg i iechyd a diogelwch neu gymorth cyntaf, yn ogystal â chynefino helaeth.[4]

Yn ail, gallai'r cynnydd diweddar yn nifer dysgwyr rhan-amser mewn addysg bellach helpu i esbonio rhan o'r cynnydd. Mae'r cynnydd yn dilyn gostyngiad hirdymor a briodolwyd i doriadau mewn cyllid a tharfu a achoswyd gan y pandemig.[5] Dengys data o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru y cynyddodd nifer y dysgwyr rhan-amser yn y flwyddyn academaidd hyd at fis Gorffennaf 2024, tra bod nifer y dysgwyr llawn-amser wedi aros yn gymharol sefydlog.

**Ffigur 2: Cyfranogiad mewn dysgu wedi cynyddu'n sylweddol yng Nghymru ers 2023.**

Cyfraddau cyfranogiad yng Nghymru ac yn y DU, 2025 a 2023




Sylfaen: Ymatebwyr Cymru yn 2025. Sylfaen wedi pwysoli – 851. Sylfaen heb bwysoli – 851. Ymatebwyr y DU gyfan yn 2025. Sylfaen wedi pwysoli= 5,186. Sylfaen heb bwysoli = 1,366. Ymatebwyr Cymru yn 2023. Sylfaen wedi pwysoli = 422. Sylfaen heb bwysoli = 597. Ymatebwyr y DU gyfan yn 2023. Sylfaen wedi pwysoli = 8,906. Sylfaen heb bwysoli = 9,506.

---

[4] Dengys yr Arolwg Sgiliau Cyflogwyr fod 63% o gyflogeion yn 2022 wedi derbyn hyfforddiant yn y 12 mis diwethaf o gymharu â 64% yn 2024 (+ 36,300). Fodd bynnag, gostyngodd nifer cyfartalog dyddiau hyfforddiant fesul hyfforddai o 6.8 diwrnod i 6.6 diwrnod yn unol â'r cynnydd diweddar mewn hyfforddiant a chyrsiau tymor byr. Ymhellach roedd y math o hyfforddiant a gafodd y cynnydd mwyaf yn y gyfran o safleoedd ymysg hyfforddiant iechyd a diogelwch neu gymorth cyntaf. Roedd 71% o safleoedd wedi darparu'r hyfforddiant hwn yn 2022 o gymharu â 75%.

[5] Ystadegau Medr (2025) Addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu cymunedol, Awst 2023 i Orffennaf 2025.

## Mae anghydraddoldebau cymdeithasol-ddemograffig sylweddol

### Mae cyfranogiad mewn dysgu yn gostwng gydag oedran


Mae'r arolwg yn dangos yn gyson fod cyfranogiad mewn dysgu yn gostwng gydag oedran, gyda'r tebygrwydd o ddysgu yn gostwng gan 4% ar gyfer pob blwyddyn ychwanegol o fywyd yn y DU.[6] Yng Nghymru dywedodd 75% o oedolion 19-24 oed eu bod wedi cymryd rhan mewn dysgu yn y tair blynedd ddiwethaf. Mae hyn yn gostwng i 59% ar gyfer rhai 25-29 oed ar gyfer rhai 25-49 oed, 30% ar gyfer rhai 50-74 oed a 19% ar gyfer rhai 75 oed neu drosodd. Mae'r cyfrannau yn weddol debyg i'r rhai a welwyd yn y DU ymysg pobl 19-24 oed (74%) a 75 neu hŷn (15%). Fodd bynnag, mae pobl 25-40 a 50-74 oed yng Nghymru yn sylweddol fwy tebygol na rhai yn y DU o ddweud eu bod yn cymryd rhan mewn dysgu (52% yng Nghymru a 25% yn y DU).

Dylai'r gostyngiad mewn cyfranogiad mewn dysgu gydag oedran fod yn achos consyrn am ddau reswm mawr. Gan fod y boblogaeth yn heneiddio – rhagwelir y bydd un ym mhob pedwar o bobl yng Nghymru yn 65 oed neu drosodd erbyn 2034[7] – ac oedran ymddeol yn cynyddu, ni fu dysgu gydol oes erioed mor bwysig i sicrhau fod pobl yn ennill sgiliau newydd ar hyd eu gyrfaoedd. Mae dysgu hefyd yn gysylltiedig gyda buddion iechyd a llesiant, yn arbennig ar gyfer oedolion hŷn, megis llai o debygrwydd o ddatblygu dementia neu deimlo'n unig.[8] Fodd bynnag, mae pobl 50-74 oed hanner llai tebyg nag oedolion 25-49 oed (30% o gymharu â 59%) o fod wedi cymryd rhan mewn dysgu yn y tair blynedd ddiwethaf.

[6] Phipps, B., Nermond, O., Revel, A., Egglestone, C., Jones, E., Evans, S. (2025) The workforce learning slowdown?.
[7] Llywodraeth Cymru (2025) Amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol: sail-2022.
[8] Llywodraeth Cymru (2017) Addysg Oedolion yng Nghymru.

**Ffigur 3: Pobl 25-49 oed ddwywaith mor debygol o gymryd rhan mewn dysgu â rhai 50-74 oed.**

Cyfranogiad oedolion mewn dysgu yn ôl oedran yng Nghymru ac yn y DU, 2025.




*Nodyn: mae'r sylfaen ar gyfer y grŵp hwn dan 100. Sylfaen: Ymatebwyr Cymru. Sylfaen wedi pwysoli = 851. 19-24 = 75, 25-49 = 376, 50-74 = 318, 75+ = 65. Sylfaen heb bwysoli = 851. 19-24 = 75, 25-49 = 376, 50-74 = 318, 75+ = 65. Ymatebwyr y DU gyfan. Sylfaen wedi pwysoli = 5,186. 19-24 = 557, 25-49 = 2,114, 50-75 = 2,068, 75+ = 335. Sylfaen heb bwysoli = 851. 19-24 = 586, 25-49 = 2,250, 50-74 = 1,996, 75+ = 268.

## Mae graddiad cymdeithasol yn rhagfynegydd allweddol ar gyfer cyfranogiad mewn dysgu


Mae pobl mewn graddiadau cymdeithasol uwch yn fwy tebygol na'r rhai mewn graddiadau is i ddweud iddynt gymryd rhan mewn dysgu yn ddiweddar (Ffigur 4: Cyfranogiad mewn dysgu ar gyfer pobl yng ngraddiad C1 yn sylweddol uwch yng Nghymru nag yn y DU.).[9] Yng Nghymru, mae cyfranogiad yn sylweddol uwch ymysg pobl yng ngraddiadau AB (55%) a C1 (52%) nag ymysg y rhai yng ngraddiad DE (36%). Mae unigolion yng ngraddiad AB hefyd yn ystadegol yn sylweddol fwy tebygol na phobl yng ngraddiad C2 (45%) o ddweud eu bod yn dysgu. O'i gymharu â'r DU gyfan, mae pobl yng Nghymru yng ngraddiad cymdeithasol C1 yn sylweddol fwy tebygol o ddweud iddynt gymryd rhan mewn dysgu yn y tair blynedd ddiwethaf.

Ymddengys fod yr anghydraddoldeb rhwng y graddiad uchaf ac isaf yn fwy yng Nghymru nag yn y DU. Mae'r gwahaniaeth mewn cyfranogiad rhwng graddiadau AB a DE yn 19 pwynt canran yng Nghymru, o gymharu â 16 pwynt canran yn y DU gyfan.

[9] Mae grwpiau graddiad cymdeithasol yn ffordd o gategoreiddio pobl yn ôl sefyllfa gymdeithasol ac ariannol. Y categorïau yw: AB: swyddi rheoli a gweinyddol a phroffesiynol uwch a chanolradd ; C1: swyddi goruchwyliol, clerigol a rheoli, gweinyddol a phroffesiynol is; C2: swyddi gwaith llaw medrus DE: swyddi gwaith llaw lled-fedrus a heb sgiliau, diwaith a swyddi graddiad isaf.

**Ffigur 4: Cyfranogiad mewn dysgu ar gyfer pobl yng ngraddiad C1 yn sylweddol uwch yng Nghymru nag yn y DU.**

Cyfranogiad mewn dysgu yn ôl graddiad cymdeithasol, 2025




Sylfaen: Ymatebwyr Cymru. Sylfaen wedi pwysoli = 851. AB = 232, C1 = 208, C2 = 160, DE = 250. Sylfaen heb bwysoli = 851. AB = 227, C1 = 208, C2 = 162, DE = 254. Ymatebwyr y DU gyfan. Sylfaen wedi pwysoli = 5,186. AB = 1,520, C1 = 1,195, C2 = 949, DE = 1,522. Sylfaen heb bwysoli = 5,186. AB = 1,531, C1 = 1,183, C2 = 966, DE = 1,506.


## Po hiraf y mae pobl yn aros mewn addysg lawn-amser, y mwyaf tebygol ydynt o ddysgu fel oedolion

Mae'r arolwg yn defnyddio'r oedran y mae pobl yn gadael addysg lawn-amser fel dirprwy ar gyfer cyrhaeddiad addysgol. Mae cyfranogiad mewn dysgu yn cynyddu po hiraf mae unigolion yn aros mewn addysg (Ffigur 5). Yng Nghymru, dywedodd 53% o'r bobl a adawodd addysg lawn-amser yn 21 oed neu uwch eu bod wedi dysgu yn ddiweddar, o gymharu â 34% o bobl a adawodd addysg lawn-amser yn 16 oed neu iau.

Fodd bynnag, mae pobl yng Nghymru a adawodd addysg lawn-amser yn 16 oed neu iau, neu yn 17-18 yn sylweddol fwy tebygol na phobl yr un oed yn y DU gyfan o ddweud eu bod wedi cymryd rhan mewn dysgu yn ddiweddar (yn yr un drefn 34% o gymharu â 23% a 48% o gymharu â 39%).

**Ffigur 5: Pobl a adawodd addysg lawn-amser yn 18 oed neu iau yn sylweddol fwy tebygol o gymryd rhan mewn dysgu fel oedolio**
**n yng Nghymru nag yn y DU**

Cyfranogiad mewn dysgu yn ôl oedran yn gadael addysg lawn-amser yng Nghymru ac yn y DU, 2025




Sylfaen: Ymatebwyr Cymru. Sylfaen wedi pwysoli = 851. 16 neu lai = 252, 17-18 = 154, 19-20 = 102, 21+ = 313. Sylfaen heb bwysoli = 851. 16 neu lai = 252, 17-18 = 156, 19-20 = 103, 21+ = 309. Ymatebwyr y DU gyfan. Sylfaen wedi pwysoli = 5,186. 16 neu lai = 1,423, 17-18 = 1,048, 19-20 = 696, 21+ = 1,765. Sylfaen heb bwysoli = 5,186. 16 neu lai = 1,366, 17-18 = 1,038, 19-20 = 712, 21+ = 1,806.


## Mae pobl mewn gwaith yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn dysgu

Mae cyfran y bobl a ddywedodd eu bod yn cymryd rhan mewn dysgu yn uwch ymysg pobl mewn cyflogaeth (llawn-amser a hefyd ran-amser) nag ymysg pobl sydd wedi ymddeol neu sy'n economaidd anweithgar (Ffigur 6). Yng Nghymru, dywedodd 59% o gyflogeion llawn-amser a 53% o gyflogeion rhan-amser eu bod wedi cymryd rhan mewn dysgu yn y tair blynedd ddiwethaf. Mae hyn yn cymharu â 23% o bobl sydd wedi ymddeol a 28% o bobl economaidd anweithgar (ac eithrio myfyrwyr a phobl sydd wedi ymddeol).

Yng Nghymru, mae cyflogeion llawn-amser yn ystadegol sylweddol fwy tebygol o ddweud iddynt gymryd rhan mewn dysgu nag yn y DU gyfan (59% o gymharu â 50%).

Fodd bynnag, mae'r diffyg cydraddoldeb yn ôl statws gwaith yn ymddangos yn fwy yng Nghymru nag yn y DU. Mae'r gwahaniaeth yn y gyfradd cyfranogiad rhwng pobl a gyflogir yn llawn-amser ac sy'n economaidd anweithgar yn 31 pwynt canran yng Nghymru, o gymharu â 26 pwynt canran yn y DU.

**Ffigur 6: Cyflogeion llawn-amser ddwywaith mor debyg o fod wedi cymryd rhan mewn dysgu yn y tair blynedd ddiwethaf na phobl sy'n economaidd anweithgar.**
Cyfranogiad mewn dysgu yn ôl statws gwaith yng Nghymru ac yn y DU, 2025




*Nodyn: mae'r sylfaen ar gyfer y grŵp hwn dan 50. Sylfaen: Ymatebwyr Cymru. Sylfaen wedi pwysoli = 851. Llawn-amser = 335, Rhan-amser = 118, Wedi ymddeol = 195, Economaidd anweithgar (eithrio myfyrwyr a phobl wedi ymddeol) = 82. Sylfaen heb bwysoli = 851. Llawn-amser = 336, Rhan-amser = 122, Wedi ymddeol = 185, Economaidd anweithgar (eithrio myfyrwyr a phobl wedi ymddeol) = 86. Ymatebwyr y DU gyfan. Sylfaen wedi pwysoli = 5,186. Llawn-amser = 2,025, Rhan-amser = 796, Wedi ymddeol = 1,128, Economaidd anweithgar (eithrio myfyrwyr a phobl wedi ymddeol) = 429. Sylfaen heb bwysoli = 5,186. Llawn-amser = 2,126, Rhan-amser = 827, Wedi ymddeol = 943, Economaidd anweithgar (eithrio myfyrwyr a phobl wedi ymddeol) = 449.

## Mae dynion a menywod yr un mor debyg o ddweud eu bod yn dysgu

Nid yw lefel cyfranogiad yn tueddu i amrywio'n sylweddol yn ôl rhywedd. Yng Nghymru, mae'r gyfradd cyfranogiad ar gyfer dynion yn 48% ac yn 46% ar gyfer menywod. Nid yw'r gwahaniaeth yn arwyddocaol yn ystadegol.

## Gall gwahaniaethau yn ôl rhanbarth ac ethnigrwydd gael eu hesbonio'n rhannol gan ffactorau eraill

Mae cyfranogiad mewn dysgu yn sylweddol uwch yn Ne Ddwyrain (50%) nag yn Ne Orllewin (42%) Cymru (Ffigur 7).[10] Gellir priodoli'r gwahaniaeth hwn i gyfansoddiad demograffig y ddau ranbarth. Mae gan y De Orllewin gyfran uwch na'r De Ddwyrain o bobl sy'n economaidd anweithgar ac ar incwm isel.[11] Mae'r boblogaeth hefyd yn hŷn


---

[10] Rhannwyd Cymru fel sy'n dilyn ar gyfer dibenion ystadegol: **Gogledd:** Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam, Powys, Ceredigion **De Orllewin:** Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Abertawe, Castell-nedd Port Talbot; **De Ddwyrain:** Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg, Caerdydd, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Caerffili, Blaenau Gwent, Torfaen, Sir Fynwy, Casnewydd
[11] Llywodraeth Cymru (2020) Bwletin Ystadegol: Proffil rhanbarthol marchnad lafur ac economaidd.

na'r cyfartalog yng Nghymru, gyda phob un heblaw dau o'r awdurdodau lleol yn y De Orllewin â chyfradd uwch na'r cyfartalog (10.5%) o bobl 75 oed a hŷn.[12] Mae pobl hŷn, pobl sy'n economaidd anweithgar a phobl mewn aelwydydd incwm isel yn ystadegol llai tebygol o gymryd rhan mewn dysgu. Mae cyfranogiad yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru (46%) hefyd yn is nag yn y De Ddwyrain ac yn uwch nag yn y De Orllewin, ond nid yw'r gwahaniaethau yn arwyddocaol yn ystadegol.

**Ffigur 7: Preswylwyr yn y De Ddwyrain  yn sylweddol fwy tebygol nag yn y De Orllewin i ddweud eu bod yn dysgu .**

Cyfranogiad mewn dysgu yn ôl rhanbarthau yng Nghymru, 2025




Sylfaen: Ymatebwyr Cymru. Sylfaen wedi pwysoli = 851. Sylfaen heb bwysoli = 851. Ymatebwyr y DU gyfan. Ymatebwyr De Ddwyrain. Sylfaen wedi pwysoli = 392. Sylfaen heb bwysoli = 393. Ymatebwyr Gogledd/Canolbarth. Sylfaen wedi pwysoli = 242. Sylfaen heb bwysoli = 242. Ymatebwyr De Orllewin. Sylfaen wedi pwysoli = 217. Sylfaen heb bwysoli = 216.

Yn unol ag arolwg y DU, mae pobl o grwpiau lleiafrif ethnig yn fwy tebygol na phobl o gefndiroedd gwyn i ddweud eu bod wedi cymryd rhan mewn dysgu yn y tair blynedd ddiwethaf (69% o gymharu â 45%).[13] Mae cyfuno pobl o wahanol grwpiau ethnig yn cuddio gwahaniaethau rhwng grwpiau ethnig unigol. Fodd bynnag, nid yw'r arolwg yn ei gwneud yn bosibl i ddadansoddi yn ôl grwpiau lleiafrif ethnigrwydd oherwydd maint bach y sampl. Gellir priodoli'r cyfranogiad cymharol uchel mewn dysgu ymysg


[12] Roedd gan Abertawe a hefyd Gastell-nedd Port Talbot 10.2% o oedolion 75 oed a throsodd, dim ond 0.3% yn is na'r cyfartalog ac yn llawer uwch na'r gyfran yng Nghaerdydd (6.7%) a Chasnewydd (8.2%). StatsCymru.

[13] Dim ond 70 o bobl o gefndir lleiafrif ethnig a ymatebodd I'r arolwg (71 wedi pwysoli). Mae hyn yn golygu fod y dadansoddiad yn gyfyngedig iawn. Yn y sampl arolwg wedi pwysoli, roedd 90% o'r ymatebwyr yn uniaethu fel gwyn. Mae hyn yn cymharu gyda 81% o holl boblogaeth Cymru yn ôl Cyfrifiad 2021.

lleiafrifoedd ethnig i'r ffaith fod ymatebwyr o grwpiau lleiafrif ethnig yn iau ar gyfartaledd.[14]

**Ffigur 4: Pobl o grwpiau lleiafrif ethnig yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn dysgu na phobl o gefndiroedd gwyn.**

Ethnigrwydd cyfranogiad mewn dysgu yng Nghymru ac yn y DU, 2025




Sylfaen: Ymatebwyr Cymru. Sylfaen wedi pwysoli = 851. Gwyn = 761. Lleiafrif ethnig = 71. Sylfaen heb bwysoli = 851. Gwyn = 762. Lleiafrif ethnig = 70. Ymatebwyr y DU gyfan. Sylfaen wedi pwysoli = 5,186. Gwyn = 4,100. Lleiafrif ethnig = 869. Sylfaen heb bwysoli = 5,186. Gwyn = 4,043. Lleiafrif ethnig = 921.

## Mae anghydraddoldebau mewn risg o ddod i hunanbarhau

Mae ymatebwyr a gymerodd ran mewn dysgu yn ddiweddar yn sylweddol fwy tebygol o ddisgwyl ymwneud â dysgu pellach. Dywedodd dros hanner (54%) yr ymatebwyr eu bod naill ai'n debygol iawn (28%) neu'n weddol debygol (26%) o fynd ati i ddysgu yn y tair blynedd nesaf. Mae ychydig dros naw mewn deg o ddysgwyr cyfredol (92%) a 78% o ddysgwyr diweddar yn disgwyl cymryd rhan mewn dysgu yn dyfodol. Mae'r cyfrannau hyn yn sylweddol uwch na'r cyfrannau o oedolion a gymerodd ran mewn dysgu dros dair blynedd yn ôl (31%) a'r rhai nad oedd wedi cymryd rhan mewn dysgu ers gadael addysg lawn-amser (14%). Mae'r cyfrannau hyn yn debyg i rai y Deyrnas Unedig.[15]


---

[14] Yn y sampl wedi pwysoli o'r arolwg, mae 96% o'r ymatebwyr o gefndir lleiafrif ethnig dan 50 oed o gymharu â 48% o ymatebwyr gwyn.

[15] Y cyfrannau a ddywedodd eu bod yn debygol o ddysgu yn y dyfodol yw: 86% o ddysgwyr cyfredol; 79% o ddysgwyr yn y tair blynedd ddiwethaf; 30% o bobl a fu'n dysgu dros dair blynedd yn ôl; 16% o bobl nad ydynt wedi dysgu ers gadael addysg lawn-amser.

**Ffigur 9: Oedolion a gymerodd ran mewn dysgu yn y tair blynedd ddiwethaf yn fwy tebygol o ddysgu yn y dyfodol o gymharu â'r rhai heb brofiad diweddar.**

Tebygol o gymryd rhan mewn dysgu yn y tair blynedd nesaf.





Sylfaen: Ymatebwyr Cymru. Sylfaen wedi pwysoli = 851. Dysgwr cyfredol neu ddiweddar = 4-1, Heb fod yn ddysgwr cyfredol neu ddiweddar = 408. Sylfaen heb bwysoli = 851. Dysgwr cyfredol neu ddiweddar = 401, Heb fod yn ddysgwr cyfredol neu ddiweddar = 408. Ymatebwyr y DU gyfan. Sylfaen wedi pwysoli = 5,186. Dysgwr cyfredol neu ddiweddar = 2,171, Heb fod yn ddysgwr cyfredol neu ddiweddar = 2,778. Sylfaen heb bwysoli = 1366. Dysgwr cyfredol neu ddiweddar, Heb fod yn ddysgwyr cyfredol neu ddiweddar = 2,696.

# Sut mae oedolion yn dysgu

## Dywedodd un ym mhob tri o ddysgwyr eu bod yn dysgu yn annibynnol ar ben eu hunain

Mae oedolion yng Nghymru yn fwyaf tebygol o fod yn dysgu yn annibynnol ar ben eu hunain (33%); ar gwrs hyfforddi yn y gwaith (20%); drwy brifysgol, sefydliad addysg uwch neu'r Brifysgol Agored (20%); ac ar y swydd (17%) (Ffigur 10). Mae oedolion yng Nghymru yn sylweddol llai tebygol o ddweud eu bod yn dysgu drwy glwb hamdden neu iechyd (5%) nag yn y DU gyfan (8%). Mae'r cyfrannau eraill yn fras debyg i rai y DU.

**Ffigur 10: Oedolion yn dysgu mewn amrywiaeth o leoliadau.**
Lleoliad addysg oedolion yng Nghymru ac yn y DU, 2025




Sylfaen: Ymatebwyr Cymru (y cyfan a fu'n cymryd rhan mewn dysgu yn ddiweddar neu sy'n dysgu ar hyn o bryd). Sylfaen wedi pwysoli = 401. Sylfaen heb bwysoli = 400. Ymatebwyr y DU (y cyfan a fu'n

cymryd rhan mewn dysgu yn ddiweddar neu sy'n dysgu ar hyn o bryd). Sylfaen wedi pwysoli = 1,`7`. Sylfaen heb bwysoli = 2,253.

## Oedolion sydd fwyaf tebygol o gymryd rhan mewn dysgu cysylltiedig â gwaith

Caiff lleoliadau dysgu eu dosbarthu yn bedwar prif gategori yn yr adroddiad hwn:


- Cysylltiedig â gwaith, sy'n cynnwys oedolion sy'n dysgu yn o leiaf un o'r lleoliadau canlynol: 'ar y swydd', 'ar gwrs hyfforddi yn y gwaith', 'ar gwrs hyfforddi allanol a drefnwyd gan fy nghyflogwr' ac 'ar brentisiaeth'.
- Yn annibynnol, sy'n cynnwys 'yn annibynnol ar fy mhen fy hun' ac 'yn annibynnol gydag eraill'.
- Sefydliad addysgol ffurfiol, sy'n cynnwys 'drwy brifysgol/sefydliad addysg uwch/y Brifysgol Agored', 'drwy goleg addysg bellach/coleg trydyddol/coleg chweched dosbarth' a 'drwy ganolfan neu ddosbarth addysg oedolion lleol'.
- Mudiadau cymunedol neu wirfoddol sy'n cynnwys 'drwy fudiad gwirfoddol', 'drwy gyfleusterau cymunedol lleol' a 'drwy glwb hamdden neu iechyd'.

Yng Nghymru, dywedodd dau ym mhob pump o ddysgwyr eu bod wedi gwneud hynny yn y gwaith (43%) neu yn annibynnol (39%) (Ffigur 11). Caiff hyn ei ddilyn gan ddysgu a wnaed mewn sefydliadau addysgol ffurfiol (36%) a drwy fudiad cymunedol neu wirfoddol (29%). Mae'r rhain yn fras debyg i'r rhai a nodwyd yn y Deyrnas Unedig.

Ymddengys hefyd fod hyn yn debyg i dueddiad a welwyd mewn llawer o wledydd OECD, lle mae dysgwyr yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau heb fod yn ffurfiol cysylltiedig â swydd nag mewn dysgu ffurfiol.[16] Cydnabuwyd y caiff dysgu cysylltiedig â swydd ei ddominyddu'n gynyddol gan hyfforddiant seiliedig ar gydymffurfiaeth a chyrsiau byr iawn ar draws gwledydd OECD. Mae hyn yn achosi'r risg o danseilio datblygiad tymor hirach sgiliau ymysg y boblogaeth.

[16] OECD (2025) Trends in Adult Learning, New Data from the 2023 Survey of Adult Skills.

**Ffigur 11: Oedolion sydd debycaf o gymryd rhan mewn dysgu cysylltiedig â gwaith.**
Lleoliad dysgu, 2025





Sylfaen: Ymatebwyr Cymru (pawb a gymerodd ran mewn dysgu yn ddiweddar neu sy'n cymryd rhan mewn ar hyn o bryd). Sylfaen wedi pwysoli = 401. Sylfaen heb bwysoli = 400. Ymatebwyr y DU (pawb a gymerodd ran mewn dysgu yn ddiweddar neu sydd yn cymryd rhan mewn dysgu ar hyn o bryd). (Sylfaen wedi pwysoli = 2,171. Sylfaen heb bwysoli = 2,253.

## Dywedodd ychydig dan ddau draean dysgwyr fod o leiaf peth o'u dysgu wedi bod ar-lein

Mae dysgwyr yng Nghymru yn fwy tebygol o ddysgu ar-lein na wyneb yn wyneb (48% o gymharu â 34%) (Ffigur 12). Dywedodd 18% arall eu bod wedi cymryd rhan mewn dysgu cyfunol – cymysgedd o ddysgu wyneb i wyneb a dysgu ar-lein.

**Ffigur 12: Dysgu ar-lein yw'r dull cyflenwi mwyaf cyffredin.**

Dull cyflenwi dysgu yng Nghymru ac yn y DU, 2025




Sylfaen: Ymatebwyr Cymru (pawb a gymerodd ran mewn dysgu yn ddiweddar neu sy'n cymryd rhan mewn dysgu ar hyn o bryd). Sylfaen wedi pwysoli – 401. Sylfaen heb bwysoli = 400. Ymatebwyr y DU (pawb a gymerodd ran mewn dysgu yn ddiweddar neu sy'n cymryd rhan mewn dysgu ar hyn o bryd). Sylfaen wedi pwysoli = 2,171. Sylfaen heb bwysoli – 2,253.


# Cymhellion i ddysgu

## Gwaith a gyrfaoedd yw prif gymhelliant dysgwyr

Yng Nghymru, dywedodd 58% o ddysgwyr mai eu gwaith neu eu gyrfa yw eu prif gymhelliant am ddysgu, a dywedodd 41% mai hamdden a diddordeb personol yw eu prif gymhelliant (Ffigur 13). Mae'r cyfrannau hyn yn debyg i ymatebwyr yn y DU gyfan.

Yng Nghymru, pobl 25-49 oed sydd fwyaf tebygol o ddweud mai gwaith yw eu cymhelliant i ddysgu (63% o gymharu â chyfartaledd o 58%). I'r gwrthwyneb, mae pobl 65-74 oed yn sylweddol fwy tebygol o ddweud eu bod yn dysgu ar gyfer hamdden (63% o gymharu gyda chyfartaledd o 41%).

**Ffigur 13: Dysgwyr yn fwy tebygol o gael eu cymell i ddysgu ar gyfer gwaith nag ar gyfer hamdden.**
Prif gymhelliant dysgwyr, 2025





Sylfaen: Ymatebwyr Cymru (pawb a gymerodd ran mewn dysgu yn ddiweddar neu sy'n cymryd rhan mewn dysgu ar hyn o bryd). Sylfaen wedi pwysoli = 401. Sylfaen heb bwysoli – 400. Ymatebwyr y DU (pawb a gymerodd ran mewn dysgu yn ddiweddar neu sy'n cymryd rhan mewn dysgu ar hyn o bryd). Sylfaen wedi pwysoli = 2,171. Sylfaen heb bwysoli = 2,253.

## Fodd bynnag, mae cymhellion eang dysgwyr yn fwy amrywiol

Gofynnwyd i ymatebwyr hefyd am eu cymhellion eang am ddysgu (Ffigur 14). Y tri phrif gymhelliant ymysg ymatebwyr yng Nghymru yw: datblygu fy hun fel person (44%), fy helpu i wneud fy swydd bresennol yn well/gwella sgiliau swydd (32%) ac i gael cymhwyster cydnabyddedig (30%). Mae'r cyfrannau hyn o ddysgwyr ychydig yn uwch na'r cyfrannau yn y DU, ond nid oes dim o'r gwahaniaethau yn arwyddocaol yn ystadegol.

**Ffigur 14: Mae gan ddysgwyr ystod eang o gymhellion.**
Cymhellion ehangach dysgwyr ar gyfer dysgu, 2025




Sylfaen: Ymatebwyr Cymru (pawb a gymerodd ran mewn dysgu yn ddiweddar neu sydd wrthi'n dysgu ar hyn o bryd). Sylfaen wedi pwysoli = 401. Sylfaen heb bwysoli = 400. Ymatebwyr y DU (pawb a gymerodd ran mewn dysgu yn ddiweddar neu sy'n cymryd rhan mewn dysgu ar hyn o bryd). Sylfaen wedi pwysoli = 2,171. Sylfaen heb bwysoli = 2,253.


# Manteision dysgu

## Mae gan dysgu lawer o fanteision

Soniodd pobl a gymerodd ran mewn dysgu yn y tair blynedd ddiwethaf am amrywiaeth o newidiadau cadarnhaol fel canlyniad, gyda 96% yn dynodi o leiaf un fantais. Yn fwyaf cyffredin, soniodd dysgwyr yng Nghymru am gynyddu hunanhyder (37%), a ddilynwyd gan gyflawni neu symud yn nes at nodau datblygu personol (34%), mwy o fwynhad o ddysgu (33%), cwrdd â phobl newydd (28%) a bod yn well yn eu swydd bresennol neu wella eu sgiliau (27%). Mae dysgwyr yng Nghymru yn sylweddol fwy tebygol nag ymatebwyr yn y DU o ddweud eu bod wedi gwella eu hunanhyder (37% o gymharu â 31%) a chyflawni eu nodau datblygu personol (34% o gymharu â 28%) fel canlyniad i'w dysgu.

**Ffigur 15: Mae dysgwyr yn profi amrywiaeth o fanteision o ddysgu, gyda gwella hunanhyder ymysg y mwyaf cyffredin.**

Manteision dysgu ymysg dysgwyr diweddar, 2025




Sylfaen: Ymatebwyr Cymru (pawb a gymerodd ran mewn dysgu yn ddiweddar neu sy'n cymryd rhan mewn dysgu ar hyn o bryd). Sylfaen wedi pwysoli = 401. Sylfaen heb bwysoli = 400. Ymatebwyr y DU (pawb a gymerodd ran mewn dysgu yn ddiweddar neu sy'n cymryd rhan mewn dysgu ar hyn o bryd). Sylfaen wedi pwysoli = 2,171. Sylfaen heb bwysoli – 2,253.

## Mae manteision dysgu yn ymwneud â chymhellion y dysgwr


Mae dysgwyr y mae eu prif gymhelliant ar gyfer dysgu yn ymwneud â gwaith neu yrfa yn sylweddol fwy tebygol o sôn am o leiaf un fantais sy'n gysylltiedig â gwaith.

- Soniodd 70% o ddysgwyr oedd â gwaith yn gymhelliant iddynt am o leiaf un fantais gysylltiedig â gwaith, o gymharu â 38% o ddysgwyr oedd â hamdden, iechyd a llesiant, neu ddatblygu personol yn brif reswm iddyny.
- Dywedodd 33% o ddysgwyr oedd â gwaith neu yrfaoedd yn brif gymhelliant eu bod wedi derbyn neu'n disgwyl derbyn cymhwyster, o gymharu â 17% o ddysgwyr sydd â hamdden yn brif gymhelliant iddynt.
- Dywedodd 18% o ddysgwyr oedd â gwaith yn gymhelliant iddynt eu bod naill wedi cael, neu'n disgwyl cael, swydd newydd, o gymharu â dim ond 7% o ddysgwyr oedd â hamdden yn gymhelliant iddynt.
- Soniodd 37% o ddysgwyr oedd â hamdden yn gymhelliant iddynt am fantais fod yn well yn eu swydd bresennol, o gymharu â 15% o ddysgwyr sydd â hamdden yn gymhelliant iddynt.

Yn wahanol i hynny, mae dysgwyr sydd â hamdden yn gymhelliant iddynt yn sylweddol fwy tebygol o ddweud eu bod wedi profi:

- mantais i'w hiechyd a llesiant na dysgwyr oedd â gwaith yn gymhelliant iddynt (27% o gymharu â 14%);
- mwy o ddealltwriaeth o bobl a diwylliannau eraill (23% o gymharu â 14%);
- mwy o ymgysylltu yn eu cymuned leol (20% o gymharu â 10%).

**Ffigur 5: Y manteision a brofir gan ddysgwyr yn gysylltiedig â'u prif gymhelliant.**
Manteision dysgu, yn ôl rheswm dros ddysgu, 2025




Sylfaen: Ymatebwyr Cymru (dysgwyr diweddar). Sylfaen wedi pwysoli = 401. Sylfaen heb bwysoli = 400. Cymhelliant a nodwyd o waith a/neu gyrfa. Sylfaen wedi pwysoli = 231. Sylfaen heb bwysoli 231. Cymhelliant a nodwyd o hamdden, iechyd/llesiant, datblygiad personol, diddordeb personol. Sylfaen wedi pwysoli = 166. Sylfaen heb bwysoli = 166.

# Rhwystrau i ddysgu

## Oedran, cost ac awydd yn atal pobl rhag cymryd rhan mewn dysgu

Fe wnaeth mwy na phedwar mewn pump (84%) o ymatebwyr nad oedd wedi cymryd rhan mewn dysgu yn y tair blynedd ddiwethaf ddynodi o leiaf un rhwystr oedd wedi eu hatal rhag gwneud hynny. Mae hynny yn debyg i'r 82% o ymatebwyr ar draws y DU a soniodd am o leiaf un rhwystr.

Mae ychydig dros draean (34%) y bobl yng Nghymru a ddywedodd nad oeddent wedi cymryd rhan mewn dysgu yn y tair blynedd yn sôn eu bod yn teimlo yn 'rhy hen' (Ffigur 17). Po hynaf yw pobl, y mwyaf tebygol ydynt o deimlo fel hyn. Dywedodd un ym mhob pump (21%) o ymatebwyr 25-49 oed fod hyn yn rhwystr, gan godi i 39% o rai 50-64 oed, 41% o rai 65-74 oed a 47% ymatebwyr 75 oed neu drosodd. Gyda gyrfa pum degawd yn dod yn arferol, a gydag arwahanrwydd cymdeithasol ac unigrwydd yn heriau i lawer o grwpiau yn cynnwys y rhai dros oedran y pensiwn gwladol, mae'n bwysig ein bod yn grymuso pobl o bob oed i gymryd rhan mewn dysgu o bob math.


Cost neu fforddiadwyedd yw'r ail rwystr fwyaf cyffredin a nodwyd sy'n atal pobl rhag dysgu. Soniodd bron draean (31%) o'r holl ymatebwyr heb brofiad diweddar o ddysgu am hyn. Mae hyn yn sylweddol uwch nag yn y DU gyfan (24%).

Dywedodd ychydig dros chwarter (27%) yr ymatebwyr yng Nghymru a nododd nad oeddent wedi cymryd rhan mewn dysgu yn y tair blynedd ddiwethaf nad ydynt eisiau gwneud hynny. Mae hyn yn gyfran debyg i'r DU gyfan (29%). Mae cynyddu gwerth tybiedig dysgu ymhlith oedolion a'i wneud yn berthnasol iddynt felly yn nod bwysig, ynghyd â dileu rhwystrau.

Ar gyfartaledd, nododd oedolion nad oeddent wedi cymryd rhan mewn dysgu yn y tair blynedd ddiwethaf fod mwy na dau rwystr yn eu hatal rhag cymryd rhan. Felly mae angen i ymyriadau sy'n anelu i annog cyfranogiad mewn dysgu  roi ystyriaeth i'r amrywiaeth o rwystrau sy'n wynebu pobl yn hytrach na chanolbwyntio ar un agwedd.

**Ffigur 17: Y rhwystrau a nodwyd amlaf gan oedolion heb brofiad diweddar o ddysgu yw eu bod yn teimlo'n rhy hen a chost dysgu.**

Rhwystrau sy'n wynebu rhai heb fod yn ddysgwyr, 2025





Sylfaen: Ymatebwyr Cymru (pawb nad ydynt wedi astudio yn y 3 blynedd ddiwethaf). Sylfaen heb bwysoli = 408. Sylfaen wedi pwysoli = 4-8. DU (pawb nad ydynt wedi astudio yn y 3 blynedd ddiwethaf). Sylfaen heb bwysoli = 2,696. Sylfaen wedi pwysoli = 2,778.

## Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn profi heriau wrth ddysgu

Yng Nghymru, dywedodd 71% o ddysgwyr eu bod wedi profi o leiaf un her tra'n dysgu. Mae hyn yn debyg i'r 73% 7o ddysgwyr yn y DU gyfan a ddywedodd yr un peth. Yn fwyaf cyffredin, mae dysgwyr yn sôn am bwysau amser (30%), a ddilynir gan ddiffyg hyder (25%) a chost (20%) (Ffigur 18). Mae cyfran sylweddol fwy o ddysgwyr yng Nghymru nag yn y DU gyfan yn dweud fod hyder yn her (25% o gymharu â 19%).

**Ffigur 18: Dysgwyr yn wynebu ystod o heriau tra'n dysgu.**
Heriau a wynebodd ddysgwyr diweddar, 2025




Sylfaen: Ymatebwyr Cymru (sydd i gyd wedi cymryd rhan mewn dysgu yn ddiweddar neu yn gwneud hynny ar hyn o bryd). Sylfaen wedi pwysoli = 401. Sylfaen heb bwysoli – 400. Ymatebwyr y DU (pawb sydd wedi cymryd rhan mewn dysgu yn ddiweddar neu'n gwneud hynny ar hyn o bryd). Sylfaen wedi pwysoli – 2,171. Sylfaen heb bwysoli = 2,253).

Mae rhai grwpiau o ddysgwyr yn fwy tebygol o brofi heriau:

- Mae dysgwyr 19-24 oed (91%) a 25-49 oed (78%) yn sylweddol fwy tebygol na'r cyfartalog o sôn am o leiaf un her tra'n dysgu (71%). Mae dysgwyr 19-24 oed yn sylweddol fwy tebygol o sôn am ddiffyg hyder (44%) na dysgwyr 25-49 oed (25%) neu 50-74 oed (15%).
- Mae dysgwyr yng ngraddiad cymdeithasol DE yn sylweddol fwy tebygol na'r cyfartalog o nodi her (81% o gymharu â 71%).
- Mae pobl yn Ne Orllewin Cymru yn fwy tebygol na dysgwyr yn Ne Ddwyrain Cymru o ddweud fod diffyg offer digidol, band eang neu amgylchedd dysgu o bell yn her (10% o gymharu â 4%).[17]

[17] Mae maint sampl pobl yn y De Orllewin (90) yn fach felly mae angen gofal wrth drin y canfyddiad yma.

# Casgliad

Gall canfyddiadau o'r Arolwg Cyfranogiad Oedolion mewn Dysgu lywio strategaeth Medr ar gyfer y dyfodol, yn ogystal â gwneud penderfyniadau am addysg oedolion gan wneuthurwyr polisi, busnesau, darparwyr dysgu a mudiadau cymunedol. Dengys yr arolwg fod 47% o oedolion yng Nghymru wedi cymryd rhan mewn rhyw fath o ddysgu yn y tair blynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, mae diffyg cydraddoldeb sylweddol yn ôl nodweddion economaidd-gymdeithasol, yn cynnwys oedran, graddiad cymdeithasol, cyrhaeddiad addysgol a statws gwaith. Er fod cyfranogiad mewn dysgu yn ymddangos yn uwch yng Nghymru nag yn y DU gyfan yn 2025, mae rhai anghydraddoldebau yn fwy amlwg yng Nghymru.

Mae pobl yn llai tebygol o gymryd rhan mewn dysgu wrth iddynt fynd yn hŷn. Gan fod poblogaeth sy'n heneiddio yn effeithio hyd yn fwy ar Gymru nag ar weddill y DU, dylai gwella cyfleoedd dysgu i bobl hŷn fod yn ffocws i wneuthurwyr polisi, cyflogwyr a darparwyr dysgu.[18] Mae adroddiad gan y Comisiynydd Pobl Hŷn yn tanlinellu'r angen i ganolbwyntio ar wella cyfleoedd ar gyfer ailhyfforddi neu ddysgu sgiliau newydd i fynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail oedran mewn cyflogaeth yng Nghymru.[19]

Mae cyfranogiad mewn dysgu yn isel ymysg pobl mewn swyddi â llaw lled-grefftus a swyddi â llaw heb sgiliau, y rhai sydd yn ddiwaith, yn y swyddi gradd isaf neu wedi ymddeol ar bensiwn gwladol. Mae pobl sydd allan o waith oherwydd afiechyd neu sydd â chyfrifoldebau gofalu hefyd yn llai tebygol o ddweud eu bod yn cymryd rhan mewn dysgu. Gall Medr, cyflogwyr, Canolfannau Gwaith a darparwyr cymorth cyflogaeth helpu i gyflwyno'r achos dros ddysgu gydol oes a rhoi cymorth i hwyluso cyfranogiad ar gyfer pobl o bob cefndir. Gellir gwneud hyn drwy fynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal oedolion rhag cymryd rhan, yn ogystal â dangos manteision a pherthnasedd dysgu gydol oes.

Dengys yr arolwg fod oedolion yn ffynnu pan maent yn dysgu. Mae hyn yn cynnwys cynyddu hyder, sgiliau gwell i wneud eu gwaith neu sicrhau cynnydd yn y gwaith, cwrdd â phobl newydd neu wella iechyd a llesiant. Fodd bynnag, mae ansawdd y dysgu yn bwysig. Wrth i dystiolaeth ehangach ddangos fod dysgu heb fod yn ffurfiol a dysgu tymor byr yn tyfu, mae'n bwysig i gomisiynwyr, cyflogwyr ac oedolion ddeall ansawdd y mathau yma o ddysgu ac annog cyflenwi a defnydd darpariaeth sydd fwyaf tebygol o fod o fudd i bobl. Mae hefyd angen i bolisi ac ymarfer fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu pobl tra'u bod yn dysgu, yn cynnwys rhwystrau sefyllfa tebyg i gost ac amser,

[18] Erbyn 2032 rhagwelir y bydd nifer y bobl 65 oed neu drosodd yn 24.3% o'r holl boblogaeth yng Nghymru. Mae hyn yn cymharu gyda 23.6% yn yr Alban, 21.8% yng Ngogledd Iwerddon a 20.9% yn Lloegr. Amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol: sail-2022 [HTML] | LLYW.CYMRU

[19] Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (2025) Heneiddio yng Nghymru: Cipolwg ar brofiadau pobl hŷn.

# Atodiad: Dull yr arolwg

Mae'r Arolwg o Gyfranogiad Oedolion mewn Dysgu yn fwriadol yn defnyddio diffiniad eang o ddysgu, yn cynnwys ystod eang o ddysgu ffurfiol, heb fod yn ffurfiol ac anffurfiol, ymhell tu hwnt i derfynau cyfleoedd addysgol i oedolion a gynigir i'r cyhoedd. Bob blwyddyn, caiff sampl cynrychioladol o tua 5,000 o oedolion 17 oed a throsodd ar draws y DU y diffiniad canlynol o ddysgu a gofynnir iddynt pryd oedd y tro diwethaf iddynt gymryd rhan mewn unrhyw ddysgu, yn ogystal â pha mor debygol ydynt o gymryd rhan mewn dysgu yn ystod y tair blynedd nesaf:

> "Gall dysgu olygu ymarfer, astudio neu ddarllen am rywbeth. Gall hefyd olygu cael eich addysgu, cyfarwyddo neu hyfforddi. Mae hyn er mwyn i chi allu datblygu sgiliau, gwybodaeth, gallu neu ddealltwriaeth o rywbeth. Gall dysgu hefyd gael ei alw yn addysg neu hyfforddiant. Gallwch ei wneud yn gyson (bob dydd neu fis) neu gallwch ei wneud am gyfnod byr o amser. Gall fod yn amser llawn neu ran-amser, gartref, yn y gwaith, neu mewn lle arall fel coleg. Nid oes raid i ddysgu arwain at gymhwyster. Mae gennym ddiddordeb mewn unrhyw ddysgu yr ydych wedi ei wneud, boed wedi ei orffen neu beidio.'

Roedd Arolwg Cyfranogiad Oedolion mewn Dysgu 2025 yn cynnwys 5,186 o oedolion 17 oed a throsodd ar draws y DU, yn cynnwys 851 yng Nghymru. Cafodd y sampl hwn ei bwysoli (gan roi sampl effeithiol o 5,186 yn y DU gyfan a 851 yng Nghymru) i roi set data yn cynrychioli y DU a Chymru. Yn ogystal â chyfranogiad cyffredinol, mae arolwg 2025 yn ymchwilio pwy sy'n cymryd rhan mewn dysgu; cymhellion a rhwystrau; sut y caiff dysgu ei wneud; y manteision a brofwyd fel canlyniad i ddysgu; defnydd technoleg i gefnogi dysgu; a hyder yn a disgwyliadau'r dyfodol o dechnoleg mewn gyrfaoedd.

Yn 2025 cafodd arolwg y DU ei ran-ariannu gan Ufi VocTech Trust, gyda Medr yn rhoi cyllid ar gyfer hybu'r arolwg yng Nghymru. Cynhaliwyd gwaith maes gan Kantar drwy eu harolwg omnibws ar-lein yn y DU, a gynhaliwyd rhwng 23 Mehefin 2025 a 14 Gorffennaf 2025.

### Dadansoddiad

Roedd dadansoddiad o ganlyniadau'r arolwg yn bennaf yn cynnwys cymysgedd o ystadegau disgrifiadol a phrofi arwyddocâd dadansoddiadau demograffig ac allweddol amrywiol.  Dylid nodi fod pob ffigur a dadansoddiad ym mhob rhan o'r adroddiad hwn yn seiliedig ar ddata wedi pwysoli.

### Mesur cyfranogiad

Mae'r arolwg yn defnyddio diffiniad bwriadol eang o ddysgu i gynnwys ystod mor fawr o ddysgwyr ag sy'n bosibl, sy'n mynd tu hwnt i gyfranogiad mewn darpariaeth a gyllidir yn gyhoeddus. Mae'r dehongliad o'r diffiniad yn wrthrychol a gall rhai unigolion gyda phrofiadau tebyg eu dosbarthu eu hunain yn wahanol. Mae'r Arolwg Cenedlaethol o

Addysg Oedolion (NALS) [20] yn defnyddio dull arall, sy'n defnyddio diffiniad gwahanol a chyfres o gwestiynau i ddosbarthu ymatebwyr yn ddysgwyr ffurfiol, dysgwyr heb fod yn ffurfiol, dysgwyr anffurfiol a rhai heb fod yn ddysgwyr. Mae'r cyfraddau cyfranogiad a fesurir drwy NALS yn uwch na'r rhai a gaiff eu cynnwys yn yr Arolwg Cyfranogiad Oedolion mewn Dysgu.

Er y rhoddir diffiniad o ddysgu i ymatebwyr, mae natur hunan-adrodd yr arolwg yn dibynnu ar unigolion yn ffurfio barn am sut y mae'n berthnasol iddynt hwy. Gall eu dealltwriaeth bresennol o'r hyn yw dysgu, a all gyfeirio at ystod o ffactorau tebyg i ffurfioldeb y dysgu, hyd a/neu ddull cyflenwi ddylanwadu ar hyn. Felly gall ymatebwyr ddehongli cwestiynau yn wahanol a gallant roi gwybodaeth heb fod yn gywir (naill ai'n fwriadol neu drwy gamgofio manylion). Fodd bynnag, caiff y risg hwn ei liniaru gan faint mawr y sampl a gan gysondeb cyffredinol yr ymatebion dros hanes 30-mlynedd yr arolwg. Byddai defnydd ystadegau a gesglir yn genedlaethol ar addysg oedolion tebyg yn natganiadau ysgadegol y DfE ac EFSE yn ddull arall.[21] Fodd bynnag, mae diffiniadau o'r fath wedi eu cyfyngu i ddarpariaeth a gyllidir yn gyhoeddus ac ni fedrant ddynodi materion ansoddol tebyg i rwystrau neu gymhellion i ddysgu.

## Diffiniadau

Caiff y diffiniadau canlynol eu defnyddio ym mhob rhan o'r adroddiad.

**Dysgwyr cyfredol:** ymatebwyr sy'n dysgu ar hyn o bryd,

**Dysgwyr diweddar:** ymatebwyr nad ydynt yn dysgu ar hyn o bryd ond a wnaeth hynny yn y tair blynedd cyn y cyfweliad.

**Cyfranogiad mewn dysgu:** ymatebwyr sy'n dysgu ar hyn o bryd neu a wnaeth hynny yn y tair blynedd cyn y cyfweliad (dysgwyr cyfredol a diweddar).

**Cyfradd cyfranogiad:** cyfran yr ymatebwyr sy'n ddysgwyr cyfredol neu ddiweddar.

**Prif ddysgu:** y brif eitem dysgu y mae ymatebwyr yn ymwneud â hi, neu a fu felly o fewn y tair blynedd flaenorol, fel y'i hunan-ddiffinnir gan yr ymatebwyr.

**Graddiad cymdeithasol:** yn seiliedig ar swydd Prif Enillydd Incwm yr aelwyd. Os ydynt wedi ymddeol, gofynnir iddynt nodi eu swydd flaenorol.

**Rhanbarthau:** mae dadansoddiad rhanbarthol wedi ei seilio ar dri grŵp: Gogledd a Chanolbarth Cymru, De Orllewin Cymru a De Ddwyrain Cymru.

[20] Department for Business Innovation & Skills (2012) National Adult Learner Survey 2010
[21] Department for Education (2016) Statistics: further education and skills